



Annwyl Gwsmeriaid

**Swyddfa Bost® Mynyddcynffig
2 Prince Road, Mynyddcynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6ED**

Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

Rwy'n ysgrifennu atoch i gadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynllun i symud y gangen Swyddfa'r Post uchod i Siop Gyfleustra Select, 64 Commercial Street, Mynyddcynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6DL, lle caiff ei rhedeg fel un o ganghennau lleol ffasiwn newydd Swyddfa'r Post.

Cawsom bedwar o ymatebion unigol gan gwsmeriaid yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol. Roedd rhai ymatebion yn croesawu'r symud i Siop Gyfleustra Select, gan ddweud ei bod yn agosach i rai pobl ac y byddai'n haws i gwsmeriaid ei chyrraedd. Roedd ymatebion eraill yn gwneud sylw ynghylch y parcio am fod llinellau melyn dwbl yn union y tu allan i'r siop. Bu'r adborth hwn o gymorth imi ddeall barn y cwsmeriaid a gwneud yn siŵr fod yr holl wybodaeth o'r fath yn cael ei hystyried wrth inni wneud ein cynlluniau terfynol.

Er fy mod yn cydnabod y pryderon ynglŷn â pharcio, mae'n deg dweud fod hyn yn broblem mewn sawl man ledled y DG, gan gynnwys y gangen bresennol. Wrth edrych ar ddarpariaeth gwasanaeth mewn ardal byddwn yn ystyried anghenion ein cwsmeriaid, ond rwy'n siŵr y byddwch yn deall fod parcio yn fater y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Fodd bynnag, rwyf wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r mater. Er nad oes modd parcio yn union y tu allan i'r adeilad newydd, mae digon o le i barcio gyferbyn wrth ymyl y ffordd. Felly, rwy'n fodlon fod yna ddigon o le i barcio yng nghyffiniau'r gangen arfaethedig ar gyfer cwsmeriaid.

Rydym yn sylweddoli fod y Swyddfa Bost yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cwsmeriaid, yn enwedig y bobl hŷn a phobl anabl, ac rydym am wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl cyn i'r gangen newydd agor. Mae'n dda gennyf gadarnhau y bydd y gweithredydd newydd, cyn i'r Swyddfa Bost newydd agor, yn gosod ramp parhaol wrth y fynedfa er mwyn ei gwneud yn haws mynd i mewn i'r adeilad.

Y tu mewn i'r siop, bydd y gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i'r Swyddfa Bost leol ffasiwn-newydd weithredu ochr yn ochr â'r siop. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r gweithredydd newydd wrth ddylunio tu mewn yr adeilad. Bydd peth celfi a ffitiadau'n cael eu symud neu'n cael eu cymryd oddi yno i wneud yn siŵr fod digon o le i ddod i mewn i'r adeilad. Bydd y llwybrau a'r man ciwio hefyd yn cael eu cadw'n glir a bydd digon o le i gwsmeriaid a chadair olwyn symud yn rhwydd o gwmpas y siop.

Er bod y fformat lleol yn ffordd fwy modern o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post, nid yw mewn unrhyw fodd yn amharu ar y gwasanaeth proffesiynol rydym yn ei ddarparu yn ein holl ganghennau. Bydd y staff yn cael eu hyfforddi'n llawn ynglŷn â thrafodion Swyddfa'r Post a bydd digon o staff ar gael i wasanaethu cwsmeriaid. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos â'n gweithredydd newydd i wneud yn siŵr fod digon o breifatrwydd ar gael i gwsmeriaid Swyddfa'r Post a bod y staff yn llwyr ymwybodol o'r angen i barchu cyfrinachedd cwsmeriaid. Er enghraifft, byddwn yn trafod materion fel cynllun y ciw a gofyn i gwsmeriaid aros i ffwrdd o'r cownter wrth aros eu tro am wasanaeth. Yn yr un modd, bydd canllawiau a chamau diogelwch llym ar waith – yr un modd ag mewn unrhyw gangen arall yn ein rhwydwaith, er mwyn diogelu cwsmeriaid, staff a'r arian a stoc sydd dan ofal y gweithredydd.

Bydd y Swyddfa Bost leol ffasiwn newydd yn cael ei rhedeg o fan gwasanaeth Swyddfa'r Post ar gownter y siop, lle bydd dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael i gwsmeriaid ochr yn ochr ag eitemau'r siop. Bydd y newid yn golygu hefyd y bydd oriau'r Swyddfa Bost yr un fath ag oriau'r siop. Felly, bydd trigolion lleol yn elwa ar oriau agor hirach o lawer, gan gynnwys amser cinio, prynhawniau Mercher a Sadwrn, dydd Sul ac oriau hirach thrwy gydol yr wythnos. Bydd hyn yn golygu y gall cwsmeriaid ddefnyddio ein gwasanaethau saith diwrnod yr wythnos ar adegau a fydd yn fwy cyfleus iddyn nhw. Mae manylion llawn am y gangen newydd ar ddiwedd y llythyr hwn, ynghyd â rhestr o'r cynhyrchion a gwasanaethau a fydd ar gael.

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'n cynllun gwreiddiol, yr adborth a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r effaith ar drigolion lleol a'r gymuned ehangach. Wedi cael golwg hefyd ar sut gall cerddwyr a cherbydau gyrraedd y safle newydd, rwy'n fodlon fod y gangen newydd mewn lleoliad cyfleus ac y bydd y ffordd newydd hon o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn dal i ateb gofynion cwsmeriaid ac, ar yr un pryd, yn help i roi dyfodol hirdymor cynaliadwy i wasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Bydd y gangen bresennol yn cau am 17:30 ddydd Iau 14 Medi 2017, a bydd y gangen newydd yn agor yn Siop Gyfleustra Select, 64 Commercial Street am 13:00 ddydd Gwener 15 Medi 2017. Os bydd rhaid newid y dyddiadau hyn, am resymau na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd, bydd posterï'n cael eu gosod mewn canghennau er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid. Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw wasanaeth Swyddfa'r Post arall sy'n gyfleus. Isod, fe welwch fanylion am gangen Swyddfa'r Post gyfagos:

- Swyddfa Bost Gogledd Corneli, 61 Heol Fach, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 4LN

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: 324611

Mae'r newid hwn i rwydwaith Swyddfa'r Post yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i'r rhwydwaith, yn ôl yr hyn a gytunwyd â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr. Mae copi llawn o'r Cod Ymarfer ar gael trwy fynd i'n gwefan yn www.postofficeviews.co.uk, neu gallwch gael copi wrth gysylltu â ni yn y cyfeiriad ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch ichi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir



Suzanne Richardson
Rheolwraig Rhwydwaith Rhanbarthol

Sut i gysylltu â ni:

-  postofficeviews.co.uk
-  comments@postoffice.co.uk
-  Llinell Gymorth I Gwsmeriaid:
03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55
-  FREEPOST Your Comments

Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun terfynol ar-lein. I'w weld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.



I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Mynyddcynffig

Cyfeiriad	Siop Gyfleustra Select 64 Commercial Street Mynyddcynffig Pen-y-bont ar Ogwr CF33 6DL														
Oriau agor	<table border="1"> <tr> <td>Llun</td> <td>08:00 – 22:00</td> </tr> <tr> <td>Mawrth</td> <td>08:00 – 22:00</td> </tr> <tr> <td>Mercher</td> <td>08:00 – 22:00</td> </tr> <tr> <td>Iau</td> <td>08:00 – 22:00</td> </tr> <tr> <td>Gwener</td> <td>08:00 – 22:00</td> </tr> <tr> <td>Sadwrn</td> <td>08:00 – 22:00</td> </tr> <tr> <td>Sul</td> <td>10:00 – 22:00</td> </tr> </table>	Llun	08:00 – 22:00	Mawrth	08:00 – 22:00	Mercher	08:00 – 22:00	Iau	08:00 – 22:00	Gwener	08:00 – 22:00	Sadwrn	08:00 – 22:00	Sul	10:00 – 22:00
Llun	08:00 – 22:00														
Mawrth	08:00 – 22:00														
Mercher	08:00 – 22:00														
Iau	08:00 – 22:00														
Gwener	08:00 – 22:00														
Sadwrn	08:00 – 22:00														
Sul	10:00 – 22:00														
Pellter	270 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir gwastad.														
Cynhyrchion a Gwasanaethau	Bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd.														
Hygyrchedd a gwaith hygyrchedd	<p>Mynediad a chyfleusterau Bydd y mynediad ar hyd ramp parhaol wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd yna ddolen glyw a lle i gadair olwyn.</p> <p>Parcio Mae modd parcio gerllaw.</p>														
Y Siop	Siop Gyfleustra														
Dyddiad yr Adleoliad	13:00 ddydd Gwener 15 Medi 2017														

Swyddfa'r Post® Kenfig Hill gwasanaethau ar gael

Bydd eich Bostfeistr neu'n Llinell Cymorth Cwsmeriaid ar 03457 223344 yn hapus i gynnig cymorth gydag unrhyw ymholiadau yn ymwneud ag argaeledd cynnyrch neu i'ch cyflenwi â manylion am uchafswm alldaliadau ellid eu codi. Gall cwsmeriaid hefyd siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk

	Cangen newydd
Post	
Post Dosbarth Cyntaf & Ail Ddosbarth	✓
Stampiau, llyfrau stamp (Dosbarth 1 ^{af} 6 & 12 yn unig, 2 ^{il} Ddosbarth 12 yn unig)	✓
Stampiau arbennig (argraffiad Nadolig yn unig) & labelau postio	✓
Royal Mail Signed For™	✓
Royal Mail Special Delivery™	✓
Dychweliadau Siopa o Gartref	✓
Parseli mewndirol bach a chymedrol	✓
Parseli Cyflym a Chytundeb	✓
Post Y Lluoedd Prydeinig (BFPO)	✓
Llythyrau a chardiau post rhyngwladol (yn.cynnwys 'Signed For'™ & 'Airsure'™)	✓
Pecynnau Rhyngwladol hyd at 2kg & phapurau printiedig hyd at 5kg	✓
Parseli rhyngwladol Parcelforce Worldwide	✓
Eitemau i'r deillion (mewndirol & rhyngwladol)	✓
Gwasanaeth Ailgyfeirio'r Post Brenhinol	✓
Gwasanaeth Casglu Eitemau	✓
Gwasanaethau bancio & Throsglwyddo Arian	
Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post	✓
Bancio personol a busnes: codi arian, adneuo, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (wrth ddefnyddio cerdyn, cod bar neu â llaw).	✓
Archebion Post	✓
'Moneygram'™	✓
Rhoi newid	✓
Taliadau Bil	
Taliadau bil awtomatig (cerdyn neu fargod)	✓
Ail-siarsio allweddi	✓
Transcash™ (heb fargod)	✓
Trwyddedi	
Trwyddedi wialen bysgota	✓
Teithio	
Arian teithio wedi'i archebu `mlaen llaw	✓
Arian teithio Ar Alw	Ewros
Cyfeireb Yswiriant Teithio	✓
Taliad â siec	
Ail-siarsio ffôn symudol& thalebau E	✓
Terminal Loteri Genedlaethol	✓
Mae cynhyrchion eraill ar gael yn Swyddfa'r Bost North Cornelly, 61 Heol Fach, North Cornelly, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 4LN	Amseroedd agor: Llun – Sad 09:00 – 17:30